

Achos Cyfraith Strategol yn Erbyn Cyfranogaeth y Cyhoedd – Cais am Dystiolaeth

Crynodeb Gweithredol (Cymraeg)

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi lansio cais brys am dystiolaeth mewn ymateb i'r heriau a ddaeth yn sgil cynnydd yn y defnydd o'r ffurf o gyfreithia a elwir yn SLAPPs – Achos Cyfraith Strategol yn Erbyn Cyfranogaeth y Cyhoedd.

Gellir disgrifio SLAPPs fel camddefnydd o'r broses gyfreithiol, lle mai'r prif amcan yw harasio, dychryn a blino'r gwrthwynebydd yn ariannol ac yn seicolegol drwy ddulliau amhriodol.

Mae'r gweithredoedd hyn fel arfer yn cael eu cychwyn gan gwmnïau rheoli enw da corfforaethol a'u fframio fel achosion difenwi neu breifatrwydd a ddygir gan unigolion neu gorfforaethau i osgoi craffu er budd y cyhoedd.

Mae'r cais am dystiolaeth yn nodi opsiynau ar gyfer diwygiadau posibl yn ogystal â cheisio barn ar y cynigion hynny. Mae hefyd yn gwahodd y rheini sydd wedi cael profiad o wynebu SLAPP neu sydd â diddordeb i rannu eu profiadau a'r effaith a gafodd hyn arnynt.

Mae'r cais am dystiolaeth yn rhoi ychydig o hanes SLAPPs, natur y broblem y maent yn ei chynrychioli a nodweddion y math hwn o gyfreithia, er enghraifft, ei fod yn cael ei gynllunio i aflonyddu, dychryn a thawelu'r rheini y mae'r achos yn cael ei ddwyn yn eu herbyn.

Ystyrir amrywiaeth o opsiynau diwygio, gan gynnwys:

- **Opsiynau deddfwriaethol** – mae'r papur yn cynnig sefydlu diffiniad statudol o SLAPPs i helpu i nodi achosion perthnasol a bod yn sail i'r cynnig o sefydlu cyfundrefn rheoli achosion a chostau ar wahân ar eu cyfer.
- **Opsiynau ar gyfer diwygio difenwi** – mae'r papur yn asesu'r amddiffyniadau presennol i ddifenwi yn y gyfraith a sut y gellid cymhwyso'r rhain mewn perthynas ag achosion SLAPP. Mae'r papur yn ystyried a ddylid mabwysiadu dulliau newydd, fel cyflwyno trothwy 'malais gwirioneddol' ar gyfer hawlwy'r SLAPP.
- **Diwygiadau gweithdrefnol** – mae'r papur yn asesu a ellid diwygio gweithdrefnau presennol y llysoedd i'w galluogi i reoli achosion SLAPP mewn modd teg a chymesur. Er enghraifft, a ddylid diwygio'r drefn 'dileu' ar gyfer hawliadau sy'n camddefnyddio proses.
- **Diwygiadau rheoleiddiol** – mae'r papur yn nodi'r canllawiau diweddar gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ac yn gofyn am ymatebion ynghylch a yw'r rheini sy'n destun SLAPP wedi codi pryderon neu gwynion gyda rheoleiddwyr.

- **Diwygiadau costau** – mae'r papur yn nodi'r gyfundrefn costau bresennol ar gyfer achosion difenwi a phreifatrwydd ac mae hefyd yn gwahodd barn ar ddiwygiadau, gan gynnwys cynnig i gyflwyno system capio costau mewn achosion SLAPP.

Dylid anfon ymatebion i'r cais am dystiolaeth erbyn 16 Mai 2022 at:

SLAPPs Evidence,

PostPoint 10.24

Ministry of Justice

102 Petty France

London SW1H 9AJ

E-bost: slapps.evidence@justice.gov.uk